# Y DIWEDDARAF AM FATERION Y RHEILFFYRDD AR GYFER CYNGOR DATBLYGU'R ECONOMI - HYDREF 2017

## Cyflwyniad

Mae nifer o ddatblygiadau yn yr arfaeth fydd yn effeithio ar y rheilffyrdd. Byddan nhw'n llywio rôl y rheilffyrdd yn ein heconomi dros y degawd nesaf a mwy. O ran gwasanaethau, mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys ailosod masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau a dechrau neu barhau â phroses gaffael masnachfreintiau West Coast Partnership, CrossCountry a Great Western. Ynghyd â hynny, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch cyllido seilwaith ein rheilffyrdd a'r trefniadau ar gyfer rhoi cynlluniau gwella newydd ar waith.

## Masnachfraint Cymru a'r Gororau

Yn 2014, cafodd y cyfrifoldeb am fanyleb a chaffael gwasanaeth rheilffordd nesaf Cymru a'r Gororau ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru yn 2015 i gynghori a chefnogi Llywodraeth Cymru o ran, yn arbennig, caffael a rheoli masnachfreintiau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i greu gwasanaeth rheilffyrdd ddaw â budd i Gymru gyfan.

Ym mis Tachwedd 2016, cyflwynodd y bidwyr eu Cynigion Amlinellol oedd yn cynnwys disgrifiad manwl o'r modd y bydden nhw'n cynnig ateb ein gofynion. Cafodd y pedwar bidiwr isod eu dewis ar gyfer y rhestr fer:

- Abellio rail Cymru
- Arriva Rail Wales
- KeolisAmey
- MTR Corporation (Cymru) Ltd

Ers mis Ionawr 2017, mae'r pedwar wedi cymryd rhan mewn cymal deialog lle rhoddwyd gwybodaeth allweddol iddynt am ofynion a disgwyliadau, esboniwyd yr egwyddorion masnachol a disgrifiwyd yr amodau dyfarnu. Ar ôl y broses honno, gwahoddwyd y pedwar cwmni i gyflwyno'u tendrau terfynol ar 28 Medi 2017. Y camau nesaf yw:

- Dechrau 2018 - Dyfarnu'r contract
- Gwanwyn 2018 - Dechrau cynnal y contract
- Hydref 2018 - Dechrau'r contract

Mae'r broses gaffael wedi cymell y bidwyr i ddatblygu bidiau o'r ansawdd uchaf sy'n rhagori ar ein disgwyliadau. Disgwylir iddynt ddarparu o leiaf lefel a nifer y gwasanaethau presennol yn ogystal â chynnal y blaenoriaethau ar gyfer ehangu gwasanaethau. Rhoddir blaenoriaeth i ddarparu cerbydau newydd a gwell yn gynnar yn y contract newydd ac rydym hefyd yn disgwyl gweld amserau teithiau'n gwella.

Mae gwasanaeth rheilffyrdd dibynadwy o ansawdd sy'n rhan o system trafnidiaeth gyhoeddus integredig ledled Cymru yn ganolog i weledigaeth

Llywodraeth Cymru. Ceir cyfle gwych i wireddu hynny yn y De trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a bydd y medrau a ddatblygir yn y maes hwn yn cael eu defnyddio i roi cysyniad y metro ar waith mewn rhannau eraill o'r wlad mewn ffordd sy'n addas i ofynion yr ardal honno. Mae'r daflen 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Ein Gweledigaeth ar gyfer Metro Gogledd Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru' yn disgrifio gweledigaeth Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â hyn yn y gogledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'i holl bartneriaid ledled Cymru a thros y ffin yn Lloegr i integreiddio trafnidiaeth o bob math yn well.

**Masnachfreintiau eraill**

O ran yr holl ryddfreintiau rheilffyrdd eraill sy'n cynnal gwasanaethau yng Nghymru, dyma gynlluniau Llywodraeth y DU:

*West Coast Partnership*
Bydd masnachfraint newydd West Coast Partnership yn gyfrifol am y gwasanaethau ar Brif Lein Arfordir Gorllewin Lloegr (gan gynnwys y rheini y mae'n eu cynnal yn y Gogledd) o Ebrill 2019 a bydd yn dylunio ac yn rhedeg y gwasanaeth HS2 cyflym cyntaf rhwng Llundain a Birmingham o 2026. Mae rhestr fer o fidwyr wedi'i chyhoeddi a disgwylir dyfarnu'r contract ym mis Tachwedd 2018.

*CrossCountry*
Disgwylir i gontract newydd masnachfraint CrossCountry ddechrau ym mis Rhagfyr 2019.

*Great Western*
Disgwylir i gontract newydd masnachfraint Great Western ddechrau yn Ebrill 2020.

**Arian gan Lywodraeth y DU ar gyfer seilwaith**

Nid yw'r arian ar gyfer seilwaith wedi'i ddatganoli. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflwyno'r dadleuon o blaid buddsoddi yn ein rhwydwaith rheilffyrdd yn ystod Cyfnod Rheoli 6 (CP6) sy'n rhedeg o 2019 tan 2024 i Lywodraeth y DU dros lawer o fisoedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi penderfynu y bydd ei Fanyleb Allbwn Lefel Uchel a'i Ddatganiad o'r Arian sydd ar Gael ar gyfer CP6 (penderfynir yn derfynol arno erbyn 13 Hydref 2017) yn ymwneud yn unig ag ariannu gweithrediadau, cynnal a chadw ac adnewyddu. Mae proses newydd yn cael ei datblygu ar gyfer datblygu a chynnal gwelliannau yn y dyfodol.

Pan gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar 20 Gorffennaf 2017 fod y cynllun i drydaneiddio'r lein rhwng Caerdydd ac Abertawe wedi'i ganslo, cyhoeddodd y byddai Network Rail yn datblygu opsiynau eraill ar gyfer byrhau amserau teithio yng Nghymru.